

## Mimosa

*Ail-greu'r siwrnai ar y llwyfan gyda  
Phobl Ifanc o Gymru a Phatagonia*



### Pwy ydyn ni?

Mae Clwyd Theatr Cymru Theatr ar gyfer Pobl Ifanc yn creu profiadau celfyddydol anhygoel i Blant a Phobl Ifanc ac mae'n cael ei chyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn gweithio mewn Partneriaeth â'r Urdd, Mentrau Iaith Cymru a Menter Patagonia i greu'r cyfle cwbl unigryw yma i bobl ifanc! Mae hwn yn ychwanegol i'r daith Urdd arferol a fydd yn mynd yn mis Hydref.

### Beth rydyn ni eisiau ei gyflawni?

Rydyn ni eisiau creu cynhyrchiad cerddorol sy'n cofnodi stori anhygoel yr arloeswyr a deithiodd siwrnai o 7,000 o filltiroedd i sefydlu bywyd newydd ar baith agored Patagonia. Bydd yn 150 o flynyddoedd yn 2015 ers eu cyflawniad anhygoel, a'n nod ni yw dathlu hyn yng Nghymru ac ym Mhatagonia.

### Sut byddwn yn cyflawni hyn?

Bydd cwmni craidd o 20 o bobl ifanc (15 o Gymru a 5 o Batagonia) yn cael eu dewis i weithio gyda thîm creadigol proffesiynol i greu sioe yn ystod mis Gorffennaf 2015. Bydd y sioe'n cael ei pherfformio yng Nghymru ddechrau mis Awst 2015. Wedyn, bydd y cwmni cyfan yn teithio i Batagonia i berfformio mewn lleoliadau amrywiol e.e. Trelew, Esquel.

### Ydych chi eisiau cymryd rhan?

Fyddech chi'n hoffi perfformio gydag un o Gwmnïau Theatr proffesiynol mwyaf cyffrous Cymru a chael eich cefnogi ganddo?

Fyddech chi'n hoffi bod yn rhan o gynhyrchiad theatr cerddorol ledled Cymru a draw ym Mhatagonia yn 2015?

Ydych chi'n anturus? Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg? Fyddwch chi'n rhwng 16 oed a 21 oed erbyn 1af Gorffennaf 2015?

Ydych chi eisiau bod yn rhan o'r cyfle gwych yma cymaint fel y byddwch yn llwyddo i godi £2,900 i dalu'r costau teithio, a fydd hefyd yn helpu pobl ifanc o Batagonia i ddod i Gymru i berfformio gyda chi?

Os cewch eich dewis, a fyddwch ar gael ar gyfer clyweliadau ym mis Awst 2014?

Os ydych chi wedi ateb y cwestiynau uchod i gyd yn gadarnhaol, anfonwch ffurflen gais atom ni.

**Mimosa**

*Ail-greu'r siwrnai ar y llwyfan gyda  
Phobl Ifanc o Gymru a Phatagonia*



## Sut mae gwneud cais?

Mae'r Ffurflen Gais ar gael i'w llwytho i lawr o wefan yr Urdd [urdd.org](http://urdd.org)

Ydych chi'n gwybod am rywun i weithredu fel canolwr i chi?

Gallai hwn fod yn athro cerddoriaeth neu ddrama, neu rywun o sefydliad sydd â chysylltiad â'r celfyddydau ac sy'n gwybod am eich ymrwymiad i'r celfyddydau ar y llwyfan neu'r tu ôl i'r lleni? Atodwch y llythyr cefnogaeth i'r cais.

Rhaid anfon ceisiadau i swyddfa'r Urdd erbyn **18<sup>fed</sup> Gorffennaf 2014**.

Pob lwc gyda'ch cais.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r prosiect, cysylltwch â:

Nerys Edwards  
Clwyd Theatr Cymru Theatr ar gyfer Pobl Ifanc  
01352 701575  
[nerys.edwards@clwyd-theatr-cymru.co.uk](mailto:nerys.edwards@clwyd-theatr-cymru.co.uk)

Anfonwch eich ceisiadau at:  
Lleucu Sion/Sian Rogers  
Gwersyll yr Urdd Glan Llyn  
Llanuwchllyn  
Y Bala  
LL23 7ST

[lleucu@urdd.org](mailto:lleucu@urdd.org)  
[Sianrogers@urdd.org](mailto:Sianrogers@urdd.org)